



Cyflawni drwy
Brofiad Gwaith
Achieve through
Work Experience



ASTUDIAETH ACHOS

Myfyriwr Gwyddorau Cymdeithas

Cyflogwr Lletyol: Drws Y Nant – Cyngor Gwynedd

Beth yw GO Wales?

Mae project 'GO Wales', sydd wedi ei leoli ym Mhrifysgol Bangor, yn helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd a chynyddu eu siawns o gael swydd addas i raddedigion ar ôl gadael y brifysgol.

Am y myfyriwr/myfyrwraig

Roedd y fyfyrwraig hon yn ei blwyddyn olaf ac roedd angen digon o brofiad gwaith i wneud cais am fwrsariaeth i wneud Cwrs Gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol. Pan ddechreuom weithio gyda'r fyfyrwraig hon am y tro cyntaf, doedd ganddi ddim profiad gwaith perthnasol, ac roedd hi'n teimlo'n ddi-hyder oherwydd ei bod yn drwm ei chlyw.

Beth wnaeth i chi droi at GO Wales yn y lle cyntaf?

Penderfynais droi at broject GO Wales oherwydd fy mod i eisiau cael cefnogaeth addas gan sefydliad fyddai'n gallu fy helpu i ddod o hyd i brofiad gwaith a rhoi ystyriaeth i fy anabledd. Pan wnes i glywed fod GO Wales yn gweithio efo pobl ag anableddau, ro'n i'n gwybod fod rhaid i fi gysylltu efo nhw, a dwi ddim yn difaru.

Pa mor berthnasol yw'r lleoliad gwaith i'r llwybr gyrfa yr ydych yn dymuno ei ddilyn?

Roedd y lleoliad yn hollol berthnasol ar gyfer gyrfa fel Gweithiwr Cymdeithasol. Mi ges i agoriad llygaid mewn sawl ffordd ac ymgyfarwyddo efo sut mae gweithwyr cefnogi yn gweithio i amddiffyn a chefnogi teuluoedd a phlant ifanc. Dwi o'r farn bod y lleoliad wedi fy rhoi i ar y trywydd cywir oherwydd bellach mae gen i rywfaint o brofiad gyrfa perthnasol sy'n ateb gofynion y cwrs Gradd Meistr dwi eisiau ei astudio. Drwy wneud y lleoliad dwi wedi cael gweithio efo gweithwyr cymdeithasol eraill ac wedi cael rhywfaint o bersbectif a dwi bellach yn deall yn well pa fath o bethau y bydda i yn eu hwynebu wrth wneud y gwaith yma. Fedrai Cyngorwyr GO Wales ddim bod wedi dewis lleoliad mwy addas i fi.

Sut fyddech chi'n disgrifio'r profiad o weithio yn y rôl hon?

Dydy hon ddim yn swydd hawdd/sym. Mae'n gallu bod yn waith caled, ac yn flinedig weithiau. Mae'n waith heriol oedd weithiau'n fy ngwthio tu hwnt i be oedd yn teimlo'n gyfforddus. Ond, dwi yn meddwl ei fod o wedi rhoi mwy o hyder i fi. Wrth gysgodi gweithwyr cefnogi dwi wedi gweld sefyllfaoedd heriol a sefyllfaoedd sydd weithiau'n eithaf trist. Dwi'n gwybod eu bod nhw'n enghreifftiau o be fydda i yn ei wynebu fel gweithiwr cymdeithasol. Mi wnes i fwynhau'r lleoliad yn fawr a mwynhau'r ffaith fy mod i'n helpu teuluoedd a phlant mewn ffordd oedd yn werth chweil.

Fedwrch chi ddisgrifio unrhyw sgiliau newydd yr ydych wedi eu dysgu nad oeddech chi'n disgwyl eu dysgu?

Dwi wedi magu mwy o hyder a wnes i ddim meddwl y byddai hynny'n digwydd gan fy mod i bob amser yn amau fy hun. Dwi bellach yn gallu cyfathrebu'n well efo pobl eraill ac efo gweithwyr proffesiynol eraill, ar lafar ac ar y ffôn, ac mae hynny'n syndod i mi hefyd oherwydd fy mod i wastad wedi ei chael hi'n anodd gwneud hynny oherwydd fy mod i'n drwm fy nghlyw. Fodd bynnag, mae cael fy rhoi mewn sefyllfaoedd lle'r oedd RHAID i fi siarad ar y ffôn wedi gwella fy hyder a rwan dwi'n gallu gwneud hyn yn iawn. Dwi hefyd bellach yn gallu ysgrifennu adroddiadau sy'n seiliedig ar fy marn broffesiynol i a dwi hefyd yn gallu gyrru'n bell sy'n rhywbeth ro'n i'n anghyfforddus yn ei wneud o'r blaen.



Cyflawni drwy
Brofiad Gwaith
Achieve through
Work Experience



Wnaethoch chi lwyddo i ddefnyddio unrhyw beth yr ydych chi wedi'i ddysgu fel rhan o'ch cwrs yn y Brifysgol tra oeddech ar leoliad gwaith?

Yn rhai o fy modiwlau dwi wedi dysgu am bolisiâu a safonau gwaith cymdeithasol. Fe wnes i gofio am hynny yn ystod fy lleoliad gwaith ac roedd hynny'n golygu fy mod i wedi gallu gwneud fy ngwaith yn llwyddiannus.

Beth yw eich barn am y cymorth yr ydych chi wedi ei gael gan eich cyflogwr lletyol yn ystod eich lleoliad gwaith?

Mae'r rheolwr wedi bod yn gymorth mawr o'r cychwyn cyntaf. Fe wnaeth fy nghyflwyno i Ddrws y Nant a rhoi cefnogaeth ac arweiniad i mi trwy gydol y lleoliad. Ro'n i'n falch iawn pan ges i gynnig gwaith cyflogedig fel gweithiwr cefnogi teuluoedd. Mae hyn wedi cael dylanwad mawr ar fy hyder i.

A ydych yn teimlo bod y lleoliad hwn wedi eich helpu i oresgyn rhai o'r rhwystrau y gwnaethoch eu disgrifio cyn dechrau ar y lleoliad?

Mae wedi fy helpu i oresgyn nifer o rwystrau gan gynnwys cyfathrebu. Digwyddodd hynny drwy orfod siarad efo cydweithwyr a siarad ar y ffôn bob dydd. Mae fy hyder wrth wneud y pethau hynny wedi gwella drwy gydol y broses. Dwi hefyd yn meddwl fy mod i wedi goresgyn y rhwystr o fedru teithio'n bell oherwydd roedd hynny'n rhywbeth nad o'n i'n gwbl gyfforddus yn ei wneud ar y dechrau.

Beth oedd uchafbwyntiau gweithio yn y lleoliad hwn?

*Ar y lleoliad dwi wedi meithrin sawl sgil newydd y bydd modd i fi eu defnyddio wrth weithio yn y dyfodol mewn swydd o fy newis i. Mae wedi bod yn bleser gallu helpu a chefnogi teuluoedd a phlant ifanc dan ofal Gweithredu dros Blant. Dwi wedi cael gweld y peth o wahanol safbwyntiau sydd wedi fy mharatoi i ac wedi fy helpu i sylweddoli mai **dyma** dwi eisiau ei wneud.*

A oes unrhyw beth am broses GO Wales y gellid ei wella?

Does gen i ddim byd negyddol i'w ddweud am y project a dwi ddim yn meddwl y byddai modd gwella unrhyw beth.

Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i fyfyrwyr sy'n ystyried gwneud cais i GO Wales?

Ewch amdani. Meddyliwch beth rydych chi eisiau ei gyflawni ac i ba gyfeiriad rydych chi eisiau mynd. Meddyliwch am y math o sgiliau rydych chi angen eu datblygu neu eu gwella a meddyliwch pa fath o leoliad fyddai'n eich helpu chi i wneud hynny. Rydych chi mewn dwylo da iawn efo Tîm GO Wales. Mi fyddan nhw'n gwneud eu gorau glas i'ch cefnogi a'ch helpu chi i ddilyn y trywydd rydych chi eisiau ei ddilyn.

Dywedodd y Cynghorydd Go Wales "Dan ni'n ddiolchgar iawn i'r tîm yn Drws Y Nant am eu cefnogaeth wrth letya'r lleoliad yma. Mae wedi bod yn bleser cefnogi'r fyfyrwraig yma a gweld cymaint y mae'r profiad wedi ei helpu i wella ei hyder a goresgyn rhywfaint o'r ofnau a'r rhwystrau yr oedd hi yn eu hwynebu. Dan ni'n hynod o falch bod y lleoliad bellach wedi arwain at waith cyflogedig i'r fyfyrwraig. Mae hynny'n ganlyniad positif iawn a bydd y fyfyrwraig bellach yn gallu parhau i ddatblygu'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arni i wneud cais am gwrs Gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol. Dan ni'n dymuno pob llwyddiant iddi gyda'i chais ac yn edrych ymlaen at glywed sut mae hi'n dod yn ei blaen".

